**C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG**
**AR ADDYSG GREFYDDOL**
**30-06-10**

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr, Huw Edwards, Selwyn Griffiths, Aeron Jones, Pat Larsen a Dafydd W. Roberts

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mrs. Ruth Davies, (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Gwyn Hefin Jones (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Eirian Bradley Roberts, (Yr Eglwys Gatholig)

**Athrawon:** Mr Paul Matthews Jones, (SHA), Miss Miriam Williams, (NAS/UWT)

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson, (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG, Miss Bethan James, (Ymgynghorydd Dyniaethau), Leusa Jones, Athrawes Ymgynghorol), ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor)

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Huw Edwards.

**2. CADEIRYDD**

**Penderfynwyd** ethol Y Cynghorydd Huw Edwards yn Gadeirydd am y flwyddyn 2010/11. Diolchodd yr aelod am yr anrhydedd a chyfeiriodd yn arbennig at waith Y Cynghorydd Pat Larsen fel Cadeirydd gydol y ddwy flynedd ddiwethaf. Ychwanegodd fod awyrgylch gyfeillgar yn bodoli yn y cyfarfodydd yn gyson a bod Y Cynghorydd Larsen yn barod iawn i roi arweiniad a chyngor.

**3. IS-GADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol Y Cynghorydd Dafydd W. Roberts yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2010/11 Diolchodd yr aelod am yr anrhydedd.

Gofynnwyd am wybodaeth ynglŷn â chyfansoddiad CYSAG Gwynedd a allasai nodi ei bod yn rhaid i'r Cadeirydd fod yn Gynghorydd.

**Penderfynwyd : Cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â chyfansoddiad CYSAG Gwynedd yn y cyfarfod nesaf.**

**4. YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Stephen Churchman, Mr Noel Dyer, Mr Wyn Meredith, Ms Elisabeth Roberts (NAHT) a'r Parch Robert Townsend, (Yr Eglwys yng Nghymru).

**5. DATGANIAD O GYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**6. COFNODION**

**Cyflwynwyd :** Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2010

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

## 7. DEFNYDD O ARWEINWYR CREFYDDOL LLEOL

Yn unol â chais a wnaed yn y cyfarfod diwethaf, anfonwyd holiadur i bob ysgol uwchradd yng Ngwynedd er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â'r defnydd a wneir o arweinwyr crefyddol yn yr ysgolion.

Esboniodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) fod yr ymateb wedi bod yn dda gyda 10 allan o'r 14 ysgol yn cwblhau ac yn dychwelyd yr holiadur.

O safbwynt cydweithio, 'roedd y mwyafrif o'r ysgolion yn datgan eu bod yn:

- cynnal gwersi arbennig,
- yn ymweld â chapeli/eglwysi
- gwahodd arweinwyr crefyddol i'r ysgol
- gwahodd cynrychiolwyr o wahanol elusennau i'r ysgol

'Roedd y lleiafrif o'r ysgolion yn cynnal Clwb Cristnogol yn wythnosol, yn trefnu gweithgareddau mewn cysylltiad â chapel neu eglwys leol yn ogystal â defnyddio arweinwyr i gynorthwyo gydag astudiaethau crefyddol TGAU.

'Roedd yr holiadur yn cyfeirio at y rhai a allasai ymweld â'r ysgolion, ac mewn ymateb i hyn cyfeiriwyd at :

- Gweinidogion
- Ficeriaid
- Arweinwyr ieuenctid
- Cynrychiolwyr elusennau
- Cynrychiolwyr gwahanol grefyddau megis Y Gideoniaid, Yr Eglwys Uniongred a'r Sedemiaid
- Cynrychiolydd Mosg lleol.

O fewn yr holiadur rhoddwyd cyfle i'r ysgolion ddatgan sylwadau a nodi cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gwelwyd fod sawl cynllun ar y gweill a nodwyd gan y swyddog fod yr holl ysgolion yn datgan parodrwydd i gydweithio â gwahanol enwadau ac i ddefnyddio cynrychiolwyr er budd datblygu Addysg Grefyddol.

Credai'r swyddog fod yr ymateb a'r sylwadau'n gadarnhaol iawn.

Y Parchedig Robert Townsend oedd yn bennaf gyfrifol am wneud y cais am y wybodaeth, a chan na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod, anfonodd lythyr yn datgan ei fod yn teimlo fod y canlyniadau'n galonogol.

Cyfeiriodd aelod at y cysylltiad sy'n bodoli rhwng gweithwyr ieuenctid a'r ysgolion a chytunwyd fod hyn o werth neilltuol.

Croesawyd newyddion ynglŷn â chynllun 'Efe' sydd wedi ei sefydlu yn Ardal Eryri. Mae'n gynllun traws-enwadol gydag unigolyn wedi ei gyflogi i ymweld ag ysgolion yn yr ardal.

Galwodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau am ychwaneg o wybodaeth parthed y gwaith o drefnu'r amrywiol weithgareddau. Fel enghreifftiau o'r wybodaeth a allasai fod o fudd, cyfeiriodd at yr amserau pryd y cynhelir y gweithgareddau ac os ydynt o fewn neu'r tu allan i oriau ysgol. Yn ogystal gofynnodd a oedd angen caniatâd rhieni neu aelodau Bwrdd Llywodraethwyr ysgolion cyn cynnal y gweithgareddau.

Nododd aelod fod yr holl ddisgyblion yn cael eu gwahodd i weithgareddau ym Mhwllheli gyda'r rhain yn cael eu cynnal yn ystod oriau ysgol. 'Roedd yn ddifyr nodi mai oddi wrth y bechgyn y ceir y gefnogaeth gryfaf.

**Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad gyda diolch**

**8. AROLYGIADAU YSGOLION**

Cyflwynwyd:

**(A)** Gwybodaeth ar gynnwys adroddiadau arolygiadau ysgolion dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion.

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) mai'r nod ydoedd i ysgolion gyrraedd Gradd 1 neu 2 yn yr arolygiadau a gellir ymfalchïo pan gyrhaeddir y safonau yma. Cyfeiriodd y swyddog ymhellach at bwysigrwydd hunan arfarniadau'r ysgolion a diolchodd i'r ysgolion a'r ymgynghorwyr am eu cydweithrediad.

Tywysodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau'r aelodau drwy'r arolygiadau ar yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Gynradd Abergynolwyn
- Ysgol Ffridd y Llyn, Cefnddwysarn
- Ysgol Gynradd Llanelltyd
- Ysgol Gynradd Talysarn
- Ysgol Gynradd Bontnewydd
- Ysgol Machreth, Llanfachreth

Cyfeiriodd yn arbennig at yr ysgolion lle 'roedd Addysg Grefyddol wedi bod yn ffocws penodol i'r arolygiad sef: Ysgol Abergynolwyn, Ysgol Machreth ac Ysgol Bontnewydd. Derbyniodd y tair ysgol radd 2 yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2.

Atgoffwyd aelodau fod y drydedd flwyddyn o'r cwricwlwm ar fin cychwyn. Yn sgil hyn, 'roedd y swyddog yn nodi ei bod bellach yn chwilio'n benodol am flas y cwricwlwm wrth ddarllen yr adroddiadau.

Gyda'r Maes Llafur Cytûn newydd rhoddir ffocws ar sgiliau Addysg Grefyddol a'r cynnwys, ac o safbwynt y cynnwys cyfeiriodd y swyddog at dri phennawd sef : Y Byd, Profiad Dynol a Chwilio am Ystyr. Croesawyd yr ymateb a gafwyd i'r rhain.

Amlinellwyd yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn yr adroddiadau a rhoddwyd sylw arbennig i'r gwaith oedd yn gysylltiedig â chwilio am ystyr. Eglurodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau fod gwendid wedi bod yn y maes yma yn y gorffennol ond bod yr ysgolion cynradd wedi mynd ati i ymdrin â'r diffyg yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. 'Roedd hyn yn cael ei gydnabod yn yr adroddiadau gyda'r ddealltwriaeth o ystyr gweddi yn cael ei amlygu mewn ambell adroddiad.

Fodd bynnag, 'roedd y swyddog o'r farn fod rhai o'r arolygwyr gyda gwell gafael na rhai eraill ar y Maes Llafur Cytûn newydd.

Tanlinellwyd y pwysigrwydd o weld sgiliau'n digwydd mewn cwricwlwm ysgol a gobeithiai'r swyddog fod hyn yn wir ym maes Dyniaethau ac yn sgil hyn mewn Addysg Grefyddol. Credai eto fod rhai arolygwyr yn well nag eraill am allu defnyddio geirfa addas ar gyfer cyfeirio at sgiliau. Fel enghreifftiau, rhestrodd y swyddog rai o'r geiriau a'r termau addas i'w defnyddio megis: y plant yn gallu esbonio, cyfansoddi, trefnu lluniau, trafod, myfyrio, cyfathrebu'n ystyrlon, cywain gwybodaeth, creu a chysylltu syniadau gyda phrofiadau dynol.

‘Roedd y swyddog am weld sgiliau o’r fath yn cael eu trosglwyddo i fywyd bob dydd ac i bynciau eraill. Llongyfarchodd yr ysgolion am yr ymdrechion a wneir i gyrraedd y targedau yma.
Mynegwyd pryder gan aelod parthed addasrwydd rhai o’r arolygwyr i wneud y gwaith a’r hyfforddiant sy’n cael ei ddarparu ar eu cyfer. Ofnai fod rhai ysgolion yn cael cam oherwydd hyn.

Mewn ymateb, dywedodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau fod y drefn arolygu yn newid . Ychwanegodd fod canllawiau’n cael eu gosod gan Estyn mewn cysylltiad â’r drefn arolygu newydd.

Adroddwyd ymhellach ar gwestiwn allweddol 3 o fewn y fframwaith arolygu presennol sy’n ymdrin yn benodol â datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion.

Gyda 6 ysgol yn cael eu harolygu, derbyniodd 4 ysgol radd 1 gyda’r ddwy ysgol arall yn derbyn gradd 2. Pwysleisiodd y swyddog fod sawl ffactor yn cael ei ystyried cyn bod gradd yn cael ei phenderfynu. Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr ysgolion yn cael eu canmol am ymdrechion i ddatblygu datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion.

Ymhelaethwyd ar y gwaith a wneir yn yr ysgolion a’r cyfleoedd a roddir i’r disgyblion i gyfrannu at amrywiol weithgareddau megis cynllunio sesiynau addoli. Cyfeiriwyd yn arbennig at ysgol yn cael ei chanmol am greu ethos wâr, a nododd y swyddog at y modd y gellir sylwi ar ddisgyblion yr ysgol benodol yn parchu eu cyd-ddisgyblion a’r oedolion sy’n gweithio gyda hwy.

Mewn cysylltiad ag un ysgol, cyfeiriwyd at yr angen i adolygu’r drefn o gyd-addoli oherwydd bod cyfle i roi sylw digonol i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion ac i greu’r ethos briodol yn cael ei golli.

Cyfeiriwyd yn neilltuol at sylwadau o fewn adroddiad Ysgol Ffridd y Llyn, Cefnddwysarn. Rhoddwyd sylw arbennig i’r modd y mae datblygiad ysbrydol yn cael ei hyrwyddo’n effeithiol yn yr ysgol. Credai’r swyddog bod modd defnyddio’r sylwadau a wnaed yn yr adroddiad wrth ddarparu ysgolion ar gyfer hunan arfarnu ar gyfer y fframwaith arolygu newydd.

Ategwyd hyn gan y Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) a chyfeiriodd at y ganmoliaeth a dderbyniodd yr Ysgol Ffridd y Llyn o safbwynt y cysylltiad cryf sy’n bodoli gydag arweinyddion crefyddol.

Croesawyd y wybodaeth gan yr aelodau.

**Penderfynwyd derbyn a nodi cynnwys yr adroddiadau.**

**(B)** Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:
(i) Ysgol Ffridd y Llyn
(ii) Ysgol Talysarn
(iii) Ysgol Bontnewydd
(iv) Ysgol Garndolbenmaen
(v) Ysgol y Gelli
(vi) Ysgol Eifion Wyn

Atgoffodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yr aelodau o’r drefn i ysgolion hunan arfarnu, sef pe na fyddai ysgol yn cael ei harolygu yn y pwnc Addysg Grefyddol gofynni’r i’r ysgol honno, o fewn blwyddyn yr arolygiad, i gyflwyno hunan arfarniad o’r pwnc ac o’r elfen yn ymwneud â datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion.

Gyda 6 hunan arfarniad yn cael eu derbyn nodwyd bod y cyfan wedi dyrannu naill ai gradd 1 neu radd 2 i’w hunain ar gyfer cwestiwn allweddol 1, sy’n ymwneud â datblygiad o safbwynt y pwnc Addysg Grefyddol, a chwestiwn allweddol 3, sy’n ymwneud â datblygiad moesol cymdeithasol diwylliannol ac ysbrydol y disgyblion.

Nodwyd bod patrwm a chynnwys yr hunan arfarniadau yn amrywio ac ychwanegwyd fod Cynnal ar hyn o bryd yn adolygu'r canllawiau hunan arfarnu sy'n cael eu paratoi ar gyfer ysgolion. Esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau fod y fframwaith adolygu yn newid ac na fydd sylw i Addysg Grefyddol fel pwnc. Nodwyd ymhellach na fydd yr adroddiadau gaiff eu darparu gan Estyn yn cyfeirio, o reidrwydd, at ddatblygiad moesol ac ysbrydol nac ychwaith at safonau Addysg Grefyddol oni bai bod yna eithafiaeth yn codi yn yr ysgol. Gallasai hyn olygu safon wael sy'n galw am sylw'r awdurdod lleol, neu safon eithriadol o uchel yn haeddu gwell sylw na'r radd flaenaf.

Gwelwyd effaith hyn mewn adroddiadau a ddarparwyd yn unol â'r canllawiau newydd mewn ysgolion peilot. Eisoes rhoddwyd sylw i'r effaith gaiff y newid ar ddyletswyddau CYSAG Gwynedd sy'n gyfrifol am fonitro safonau mewn Addysg Grefyddol. O hyn ymlaen bydd yn rhaid ystyried o le gelli'r cael y dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer y gwaith monitro.

Yn ôl y wybodaeth a gafwyd gan Estyn dylai awdurdodau lleol gefnogi ysgolion, eu cynorthwyo yn yr hunan arfarniadau, i adnabod cryfderau a gwendidau ac i gefnogi ysgolion os oes angen ymdrin â rhywbeth anfoddhaol. Nodwyd bod y mater yn cael ystyriaeth ym mhob CYSAG ar draws y wlad.

Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am yr adroddiad a llongyfarchwyd yr ysgolion am safon uchel y gwaith .

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr hunan arfarniadau.**

## 9. ADRODDIAD YR YMGYNGHORYDD DYNIAETHAU

Croesawyd Mrs Leusa Jones i'r cyfarfod ac esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau ei bod wedi bod yn gweithio fel athrawes ymgynghorol yn y sector uwchradd yn ystod y ddau dymor diwethaf a bydd yn parhau gyda secondiad yn ystod y flwyddyn nesaf. Ychwanegwyd fod Mrs Jones yn Bennaeth Addysg Grefyddol yn Ysgol Dyffryn Nantlle, a chyfeiriwyd at werth ei chyfraniad i waith gydag adrannau uwchradd Gwynedd a Môn.

Cyfeiriwyd at benodiad Mr Paul Matthews Jones yn Bennaeth Ysgol Dyffryn Conwy. Bu'n cynrychioli'r penaethiaid yng Ngwynedd ar CYSAG Gwynedd ond yn awr bydd y cyfraniad yma yn dod i ben. Dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd newydd a diolchwyd iddo am ei waith cydwybodol, ei gefnogaeth a'i gymorth parod.

Nodwyd mai eleni yw'r flwyddyn gyntaf mae adrannau Addysg Grefyddol wedi cyflwyno portffolios asesiadau athrawon cyfnod allweddol 3 i sylw safonwyr allanol.

Y Cydbwyllgor Arholiadau sy'n gyfrifol am gydlynu'r prosiect ar gyfer gwirio safonau disgyblion 11-14 oed sef cyfnod allweddol 3. Nodwyd mai blwyddyn beilot yw hon a bod 2 ysgol o Wynedd yn rhan o'r gwaith. Ychwanegodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau fod blwyddyn beilot yn rhoi cyfle i ddysgu ac ennill profiad. Bydd gwahoddiad i adrannau eraill gyflwyno portffolios yn 2010/11 ac erbyn 2012 bydd pob Adran wedi gorfod cyflwyno portffolios i ddangos eu dealltwriaeth o lefelau 4, 5, 6 a 7 yn ôl y Maes Llafur Cytûn yng Ngwynedd.

Pwysleisiwyd fod APADGOS yn rhoi cyfle'n flynyddol i athrawon leisio barn parthed unrhyw angen am adnoddau dysgu ychwanegol. Nodwyd y gallasai hyn fod yn hynod amlwg o safbwynt adnoddau dysgu cyfrwng Gymraeg ac yr oedd yr Ymgynghorydd Dyniaethau am i bawb fanteisio'n llawn ar y cyfle yma .

Adroddwyd fod APADGOS yn cydlynu grŵp ar gyfer darparu canllawiau Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd. Gwnaed cais ar i athrawon ddatblygu canllawiau allasai fod o fudd i ysgolion eraill. Mae yna bennaeth un ysgol gynradd yng Ngwynedd yn aelod o'r panel.

Bellach anfonwyd pecyn ar gaethwasiaeth i bob ysgol uwchradd, a nodwyd ei fod yn edrych ar gyswllt Cymru â chaethwasiaeth. Ychwanegodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau fod y pecyn yn creu cyfle i adrannau Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol i gydweithio i ddatblygu caethwasiaeth fel thema ar draws y pedwar maes.

Adroddwyd fod yr Ymgynghorydd Dyniaethau wedi derbyn gwahoddiad i fod yn aelod o Grŵp Addysg Biosffer Dyfi.. Bydd yn cynrychioli ysgolion yn Ne Gwynedd sydd yn rhan o ardal arbennig Afon Dyfi sydd wedi cael statws UNESCO, sef yr unig statws UNESCO yng Nghymru am fod yn biosffer. Eglurwyd ymhellach fod 'biosffer' yn lleoliad lle mae pobl yn ymdrechu i gael cydbwysedd cywir rhwng y bobl, yr amgylchedd a'r economi leol.

Eisoes dechreuodd dwy ysgol, sef Ysgol Pennal ac Ysgol Dyffryn Dulas weithio gyda rhai o'r partneriaid a chawsant fudd o weithio gyda Choetiroedd Dyfi. Fel cyfraniad i waith y Grŵp, sydd wedi datblygu uned Addysg Grefyddol, bydd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn gysylltiedig â gwaith sy'n rhoi ffocws ar y thema o goedwig mewn crefydd ac yn y cymunedau lleol.

Diolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad. Yn ogystal diolchodd i Mr Paul Matthews Jones am ei waith fel aelod o GYSAG Gwynedd a chroesawodd Mrs Leusa Jones i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch**

**10. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

Cyflwynwyd copi ysgrifenedig o gofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Abertawe ar 18 Mawrth, 2010.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r cynnwys.**

**11. AROLWG O CYSAGau Cymru**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) yn egluro fod arolwg yn cael ei anfon at holl GYSAGau Cymru fel y gall Cymdeithas CYSAGau Cymru gynhyrchu adroddiad yn mapio'r gydberthynas rhwng CYSAGau a'u cymunedau lleol. Bwriad yr adroddiad fydd coladu a rhannu gwybodaeth, profiadau ac arferion.

Gwnaed cais i'r CYSAGau gwblhau holiadur erbyn 20 Gorffennaf. Eglurodd y swyddog fod cyfle i'r aelodau ystyried sut y gellid ymdrin â'r gwaith.

**PENDERFYNWYD fod y Cadeirydd, a'r Is-gadeirydd ynghyd â'r swyddogion yn uno i ymdrin â'r gwaith.**

**12. PROSIECT AtGyfnerthu**

Cyflwynwyd adroddiad yr Arolygydd Dyniaethau yn nodi fod y prosiect 'AtGyfnerthu' wedi cychwyn yn Lloegr gyda'r bwriad o drafod sut oedd athrawon yn gallu ymateb i sefyllfaoedd o eithafiaeth grefyddol oedd yn codi yn y dosbarth.

Nodwyd fod pryder yng Nghymru a Lloegr ynglŷn â grwpiau eithafol yn gweithio dan faner grefyddol ac yn tanseilio gwaith canmoladwy sy'n bodoli rhwng enwadau, rhwng grwpiau crefyddol a hyd yn oed rhwng crefyddau.

Gwahoddwyd Cymru i fod yn rhan o'r prosiect AtGyfnerthu sy'n gweithio'n bennaf i ddatblygu sgiliau athrawon yn y sector uwchradd i ddelio gyda phynciau llosg neu faterion dadleuol mewn Addysg Grefyddol. Yn ogystal â sgiliau addysgu, byddai hyn yn gysylltiedig â sicrhau fod deunyddiau addas ar gael i'w defnyddio gyda disgyblion ar lawr y dosbarth.

Estynnwyd gwahoddiad i bob ysgol uwchradd yng Ngwynedd a Môn i fod yn rhan o'r prosiect ond nodwyd nad oedd yr un ohonynt wedi dewis bod yn rhan o'r ysgol beilot. Fodd bynnag, 'roedd yr Ymgynghorydd Dyniaethau'n gobeithio'n fawr y bydd ysgolion o'r ardaloedd yn ymuno â'r prosiect yn y dyfodol. Pwysleisiodd bod deunyddiau da ar gael a bod y rhain wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Mewn ymateb, dywedodd aelod nad yw'r elfen o wahanol grefyddau yn amlwg yn yr ardaloedd dan sylw ac nad oes bygythiad o gasineb. Awgrymodd felly nad oedd lle i ddigalonni.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**13. GŴYL ADDYSG GREFYDDOL – MAWRTH 2011**

Cyflwynwyd adroddiad yr Arolygydd Dyniaethau yn nodi fod 2011 yn flwyddyn Dathlu Addysg Grefyddol a bod Cymdeithas CYSAGau Cymru yn awyddus iawn i drefnu dathliadau ar raddfa genedlaethol. Gallasai hyn fod yng Ngwanwyn 2011 yng nghyfarfod CYSAGau Cymru. Yn ogystal â hyn gwnaed cais i gynnal amrywiol weithgareddau yn lleol a chyfrannu syniadau ar gyfer y dathliadau ar wefan Dathlu Addysg Grefyddol.

Yn sgil hyn galwyd ar i'r aelodau gyflwyno syniadau at gyfer y dathlu yn yr ardal. Nodwyd na chafwyd unrhyw addewid o gyllid i gefnogi unrhyw weithgaredd. Cyfeiriwyd at bamffledi a oedd eisoes wedi eu darparu a nodwyd gan aelod y gellid eu dosbarthu i weinidogion, arweinwyr ieuenctid ac ysgolion.

Derbyniwyd y byddai'n addas anfon y wybodaeth fel rhan o'r bwletin electronig wythnosol sy'n cael ei anfon i bob pennaeth cynradd ac uwchradd.

Gwnaed sylw fod gwefan Dathlu Addysg Grefyddol yn uniaith Saesneg a gwnaed addewid y byddai ymholiadau'n cael eu gwneud ynglŷn â hyn.

**PENDERFYNWYD:**

- **(i)** **derbyn yr adroddiad**
- **(ii)** **bod y pamffledi Dathlu Addysg Grefyddol yn cael eu hanfon fel rhan o'r bwletin electronig wythnosol i holl benaethiaid cynradd ac uwchradd yr ardal.**